GWERTHFAWROGI'R HYN MAE CRIST WEDI EI WNEUD DROSOCH CHI!

Cân Rhif 25 a Gweddi Agoriadol

MAE HYN YN ACHLYSUR ARBENNIG (6 mun.)

Rydyn ni yma i ddangos ein gwerthfawrogiad am y cariad hynod a ddangosodd Iesu tuag aton ni

Ar y dyddiad hwn bron i 2,000 o flynyddoedd yn ôl, rhoddodd Iesu ei fywyd er mwyn ein hachub rhag y felltith o bechod a marwolaeth

Gorchmynnodd Iesu i'w ddisgyblion gofio'r weithred gariadus hon mewn seremoni syml a gynhelir unwaith y flwyddyn fel coffadwriaeth **[Darllenwch Luc 22:19, 20]**

Heno, bydd miliynau o bobl mewn 236 o wledydd yn ufudd i orchymyn Iesu ac yn dathlu Swper yr Arglwydd

Byddan nhw'n cyfarfod mewn Neuaddau'r Deyrnas, Neuaddau Cynulliad, mewn cartrefi preifat, a lleoedd ar rent—hyd yn oed mewn carchardai a meysydd agored

Mewn gwledydd lle mae ein gwaith o dan waharddiad bydd y rhai sydd yn gwerthfawrogi cariad Crist yn barod i beryglu eu rhyddid er mwyn ufuddhau i orchymyn Iesu

[Soniwch am newidiadau gallai rhai yn y gynulleidfa fod wedi eu gwneud er mwyn bod yn bresennol, ac yna, eu canmol am wneud yr ymdrech]

Llynedd yn fyd-eang, dathlodd _____ Swper yr Arglwydd

Heno, fe wnawn ni ateb y cwestiynau canlynol yn gryno:

(1) Pam bod angen achub dynion rhag y felltith o bechod a marwolaeth?

(2) Pwy sy'n elwa ar aberth cariadus Iesu?

(3) Pwy sy'n bwyta'r bara ac yfed y gwin?

(4) Ar wahân i fod yn bresennol heno, beth arall y mae'n rhaid inni ei wneud er mwyn gwerthfawrogi'r hyn mae Crist wedi ei wneud drosom?

PAM ROEDD ANGEN GWAREDIGAETH ARNON NI (7 mun.)

Roedd gan y dyn cyntaf, Adda, y cyfle i fyw am byth

Roedd yn rhaid iddo fod yn ufudd er mwyn iddo fyw am byth

Wrth anufuddhau i Dduw, collodd Adda'r cyfle o fyw am byth

Hwyrach, pan ganwyd plant iddo, etifeddon nhw yr un ddedfryd o farwolaeth a gafodd Adda **[Darllenwch Rhufeiniaid 5:12]**

A fyddai hi'n bosibl i unrhyw un ffyddlon o blith disgynyddion Adda gael ei achub rhag y cyflwr truenus hwn?

Fe fyddai'n bosibl, drwy ddarpariaeth Duw o aberth pridwerthol ei Fab, Iesu Grist (Mth 20:28; Eff 1:7)

Anfonodd Jehofa ei unig-anedig Fab er mwyn i bawb sy'n ffyddlon iddo gael bywyd tragwyddol (In 3:16)

Iesu yw'r "Adda diwethaf" (1Co 15:45)

Gosododd yr Adda cyntaf ei ddisgynyddion ar lwybr distryw

Rhoddodd yr Adda diwethaf, sef Iesu, ein gwaredigaeth inni drwy ei ufudd-dod hyd angau **[Darllenwch Rhufeiniaid 5:19]**

Pam roedd yn rhaid i Iesu farw?

Yn sicr, dim am unrhyw ddrwgweithred ar ei ran ef; roedd Iesu heb bechod (1Pe 2:22)

Gwnaeth Iesu gyfnewid lle gyda ni; hynny yw, dioddef marwolaeth droston ni er mwyn i ninnau cael byw am byth **[Darllenwch Hebreaid 2:9]**

Mae'n cynhesu ein calonnau, i feddwl roedd Iesu'n barod i gyfnewid lle gyda ni—i ddioddef a marw er mwyn i ninnau gael bywyd!

Ond bywyd yn lle? Yn y nef neu ar y ddaear?

PWY SY'N ELWA AR ABERTH CARIADUS IESU? (10 mun.)

Mae'r Beibl yn disgrifio dau obaith ar gyfer pobl ffyddlon

Bydd nifer cyfyngedig yn etifeddu bywyd tragwyddol yn y nef; bydd y rhan fwyaf yn mwynhau bywyd ar baradwys ddaear, yn ôl pwrpas gwreiddiol Duw ar gyfer dynol-ryw

Mae gennyn ni i gyd ddewis i fod yn rhan o deulu addolwyr Duw, ond ni allwn ni ddewis ym mhle byddan ni yn ei wasanaethu, boed hynny yn y nef neu ar y ddaear

Ni allwn ni 'benderfynu' cael ein 'geni o'r newydd' (In 3:5-8; *w09*-E 4/1 5-6)

Jehofa sy'n penderfynu lle dylen ni ei wasanaethu, naill ai yn y nef neu ar y ddaear

Bydd 144,000 yn ymuno â Christ yn Nheyrnas nef **[Darllenwch Datguddiad 14:1]**

Maen nhw i gyd yn Gristnogion, a chanddynt enw Iesu wedi ei ysgrifennu'n ffigurol ar eu talcennau

Maen nhw'n falch o ddwyn "enw ei Dad"—Jehofa

Mae ysbryd Duw yn eu sicrhau nhw'n bersonol fel nad oes unrhyw amheuaeth bod ganddyn nhw'r gobaith nefol (Rhu 8:15-17)

Y rhain sydd yn cyfranogi o'r bara a'r gwin

Nid y gobaith nefol sydd gan y rhan fwyaf o'r rhai sy'n bresennol yn Swper yr Arglwydd

Maen nhw'n edrych ymlaen yn eiddgar at y bendithion sydd gan Dduw ar eu cyfer ar baradwys ddaear

Mae plant yn awyddus i weld cyflawniad Eseia 11:6-9 **[Darllenwch]**

Mae'r rhai sydd wedi mynd yn fethedig neu'n sâl yn ysu gweld Eseia 35:5, 6 yn dod yn wir **[Darllenwch]**

Mae dynion gyda theuluoedd yn edrych ymlaen at yr amser pan fydd Eseia 65:21-23 yn dod yn wir **[Darllenwch]**

Yn ystod ei gyfnod ar y ddaear, iachaodd Iesu y rhai sâl ac fe wnaeth ef hyd yn oed godi'r meirw

Mae ef yn dyheu i wrthdroi effeithiau pechod Adda ar ddynol-ryw

A allwch chi eich gweld eich hun yn y byd newydd? Mae Duw eisiau i chi fod yno!

PWY DDYLAI BWYTA'R BARA AC YFED Y GWIN? (4 mun.)

Mae'r rhai gyda'r gobaith nefol a'r rhai gyda'r gobaith daearol ill dau yn elwa ar aberth Iesu

Ond, dydy'r rhai gyda'r gobaith daearol ddim yn cymryd yr elfennau

Ond, pam na ddylen nhw?

Sefydlodd Iesu Goffadwriaeth ei farwolaeth gyda'r rhai y gwnaeth ef gyfamod â nhw am Deyrnas nefol. Mae cyfanswm yr aelodau hyn wedi ei gyfyngu i 144,000 (Lc 22:28-30)

Dylai'r rhai sy'n bwyta'r bara ac yfed y gwin heno fod o blith yr ychydig sydd ar ôl o'r nifer a fydd yn rheoli gyda Christ yn y nefoedd (*bh* 207 par. 4–208 par. 1)

Caiff Swper yr Arglwydd ei ddathlu cyhyd â bod Cristnogion gyda'r gobaith nefol yma ar y ddaear **[Darllenwch 1 Corinthiaid 11:26]**

Unwaith i'r Arglwydd 'ddod,' bydd yn cymryd gweddill y 144,000 gartref i fod gydag ef yn y nef (In 14:1-3)

Bydd dathlu'r Goffadwriaeth i'r rhai gyda'r gobaith daearol yn dod i ben

DATHLU COFFADWRIAETH MARWOLAETH CRIST HEDDIW (10 mun.)

Heno, byddan ni'n dilyn y patrwm rhoddodd Iesu ar gyfer dathlu Swper yr Arglwydd

[Darllenwch 1 Corinthiaid 11:23, 24 gan roi sylwadau byr arnynt]

Gweddïodd Iesu a rhannodd fara i'w 11 apostol ffyddlon

Mae bara croyw yn cynrychioli corff dibechod Iesu

[Bydd brawd cymwys yn dweud gweddi fer, yna, pasiwch y bara; mae rhoi sylwadau gan y siaradwr tra bod yr elfennau yn cael eu cynnig yn opsiynol]

[Darllenwch 1 Corinthiaid 11:25 gan roi sylwadau byr arni]

Gweddïodd Iesu ac yna fe gynigiodd win i'w ddilynwyr

Mae gwin coch yn darlunio 'gwaed gwerthfawr y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau' (Mth 26:28)

[Mae brawd cymwys arall yn rhoi gweddi fer, yna pasiwch y gwin]

BETH SY'N RHAID INNI EI WNEUD I DDANGOS EIN GWERTHFAWROGIAD? (8 mun.)

Mae Jehofa eisiau i chi fod yn aelod o'i deulu o addolwyr

Fe wnaeth aberth Iesu agor y ffordd i chi gael perthynas arbennig â'ch Tad cariadus yn y nef

Mae'n rhaid ichi ufuddhau i reolau teulu Duw (1Ti 3:14, 15)

Bydd Duw yn eich helpu i fyw yn ôl ei safonau—mae ef eisiau ichi lwyddo!

Pan rydych chi'n digalonni, agorwch eich calon a gweddïwch yn daer arno

Adeiladwch eich ffydd yn Nuw drwy ychwanegu at eich gwybodaeth

Po fwyaf rydych yn adnabod Duw a Christ, y mwyaf byddwch yn eu caru

Mynychwch y cyfarfodydd yn selog, dim ar achlysuron arbennig yn unig

Mae hi wedi codi ein calonnau i ystyried yr hyn y mae Iesu wedi ei wneud droston ni

Yn y dyddiau a'r wythnosau i ddod, daliwch ati i fyfyrio ar ei aberth a'i werthfawrogi

[Diweddwch drwy ddarllen 1 Ioan 4:9]

Cân Rhif 18 a Gweddi i Gloi

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania